

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

5/5/2020

Cyfarfod ar Zoom, oherwydd y Covid 19

Presennol: Rhodri Jones (Cadeirydd), Dewi Jones (Is-gadeirydd), Huw Antur, Branwen Haf, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

2122 Croesawyd pawb i gyfarfod cyntaf y Cyngor trwy gyfrwng y we a diolchodd y Cadeirydd i Dewi Jones am wneud y trefniadau technegol. Ar ran y Cyngor, diolchodd y Cadeirydd i'r grŵp gwirfoddolwyr o dan arweiniad y Cynghorydd Branwen Haf a'r Parchedig Carwyn Siddall am gludo bwyd yn ddyddiol i'r trigolion dros 70 oed.

Derbyniwyd ymddiheuriad oherwydd rhesymau technegol oddi wrth y Cynghorydd Alan Jones Evans.

Nid oedd datganiadau o fuddiant,

2123 Cofnodion: Cytunwyd ar gywirdeb y cyfarfod rhithiol ar Ebrill 7fed 2020.

2124 Materion y Clerc: Llwybr Cŵn: mae angen ei dorri a derbyniwyd neges oddi wrth Warden Llyn Tegid nad oedd hawl ganddynt wneud gwaith ar y tir ar hyn o bryd. Cynigiodd Huw Antur fod y llwybr yn cael ei gynnwys fel rhan o raglen waith Partneriaeth Penllyn a chytunwyd i ofyn i Owen Llur Edwards wneud y gwaith.

2125 Adroddiad Cyngor Gwynedd: Ar ran Alan Jones Evans, dywedodd y Clerc fod y Cynghorydd mewn cysylltiad gyda Heddlu De Meirionnydd a'i fod wedi cael sicrhad fod yr Heddlu yn ymweld â'r ardal yn gyson sawl gwaith yr wythnos ac yn symud gweryllwyr oddi yma. Mae'r Heddlu yn holi gyrwyr ar y ffordd hefyd, ac yn sgil hynny maent yn dal cerbydau'n cario cyffuriau a gyrwyr sydd wedi cymryd cyffuriau neu alcohol. Nid yw'r Heddlu wedi gweld cynnydd mewn trais yn y cartref yn y cyfnod hwn. Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi pwerau i'r Heddlu droi pobl allan o dai haf, mae Alan Jones Evans yn parhau'n awyddus i dderbyn gwybodaeth os oes pobl mewn llety gwyliau, ac fe fydd yn parhau i drosglwyddo'r cyfeiriadau hynny i'r Heddlu.

2126 Adroddiadau Cynghorwyr:

- i. Eiddo: Cytunwyd i ofyn am baentio 3 mainc yn y pentref a'r fynwent.
- ii. Cytunwyd i holi pris paentio *railings* y fynwent (ochr y maes parcio) ac i ystyried y mater hwn ymhellach ar ôl derbyn gwybodaeth.
- iii. Toiledau: Dywedodd Huw Antur fod trafodaethau ar rannu grantiau wedi ei ohirio dros dro. Cytunwyd i gynnwys y toiledau ar y rhestr asedau i bwrpas yswiriant.

2127 Materion ariannol:

- i. Derbyniadau : Taliad cyntaf y Praesept 2020-21 - £5500.00.
- ii. Talwyd : Clerc – mis Ebrill; CThEM - £112.00; Gwaith cynnal a chadw yn y Fynwent Newydd - £450.00; Gwaith cynnal a chadw ym Mynwent yr Eglwys -£250.00

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

- iii. Derbyniwyd a chytunwyd ar y Datganiadau Cyfrifyddu ar Ffurflen Flynyddol 2019-20.
- iv. Derbyniwyd a chytunwyd ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019-20 (gan nodi nad ydyw'r Archwilydd Mewnol wedi cyflwyno adroddiad ar y gwaith archwilio hyd yn hyn).

2128 Materion lleol y Cynghorwyr:

- i. Nodwyd fod yr ysgriflen a'r lliwiau ar y triban wedi pylu ar fedd Syr Ifan ab Owen Edwards. Cytunodd Beryl Hughes Griffiths a'r Clerc i drafod cysylltu gyda'r teulu.
- ii. Cytunodd Alan Jones Evans i ddwyn sylw Swyddogion Cyngor Gwynedd at y tarmac sudd wedi suddo o gwmpas draen wrth y Llwyn.
- iii. Biniau yn y fynwent: nid yw'r bin brown ar gael bellach oherwydd bod gwastraff nad oedd yn wastraff gardd yn cael ei roi ynddo. Cytunwyd i drafod gydag Alan Jones Evans am y posibilrwydd o gael bin gwyrdd ychwanegol.
- iv. Cytunwyd i fynychu'r fynwent ar 7/5/20 am 10.00am i glirio gwastraff (gan gofio cadw pellter corfforol).
- v. Cytunodd y Clerc i gysylltu gyda Gwyn Evans, Cyngor Gwynedd, i ofyn am drwsio canllaw pontbren Craig y Tân.

2129 **Gohebiaeth** Derbyniwyd trwy e-bost ohebiaeth Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Un Llais Cymru)

Derbyniwyd llythyr o ddiolch am gyfraniad ariannol oddi wrth Eisteddfod yr Urdd Cylch Penllyn, a Ffederasiwn CFFI Meirionnydd.

Trafodwyd llythyr oddi wrth Catrin Roberts, Grŵp Cynefin, yn sôn am eu cynllun i ddatblygu unedau 2 a 3 llofft ar gyfer rhentu ym Maesypany, gan ddechrau ar y gwaith ar ddiwedd y flwyddyn.

Mynegodd y Cynghorwyr fod cyd-weithio agos wedi bod ar hyd y blynyddoedd yng nghylch Maesypany, ond bod y llythyr hwn yn datgan bwriadau heb unrhyw fath o drafodaeth nac ymgynghoriad gyda'r gymuned yn gwbl siomedig. Cytunodd Huw Antur i ddrafftio a chylchredeg llythyr mewn ymatebiad ar ran y Cyngor .

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 2/6/20 ; lleoliad / cyfrwng ac amser yn ddibynnol ar amgylchiadau Covid 19